# YSGYFARNOG



## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Dim yn wybyddus |
| DU a Chymru | Deddf Helfilod Daear (1880) |
| | Deddf Diogelu Ysgyfarnogod (1892)[a] |
| | Deddf Diogelu Mamaliaid Gwyllt 1996 |
| | Blaenoriaeth CGB DG |
| | Rhestr A74 Cymru[b] |
| Gwynedd | CGB Eryri |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae'r ysgyfarnog[c] yn rywogaeth tir amaeth cyffredin a gweladwy, a gyflwynwyd mae'n debyg gan y Rhufeiniaid yn yr hen amser. Mae'n gyffredin, ond nid yw'n bresennol yn Ucheldiroedd gogledd-orllewinol a gorllewinol yr Alban, lle ceir yrvysgyfarnog glas (*Lepus timidus*).

Arferai gael ei ystyried yn niferus, ond erbyn hyn, mae'n ymddangos fod yr ysgyfarnog wedi gostwng yn sylweddol o ran ei nifer ers dechrau'r 1960au. Mae arolwg diweddar yn awgrymu fod niferoedd y gaeaf ym Mhrydain oddeutu 800,000[1]. Mae gwybodaeth oddi wrth stadau saethu yn awgrymu fod niferoedd yr ysgyfarnogod wedi bod yn sefydlog am y deng mlynedd diwethaf, er nad yw tystiolaeth arall o hyn yn glir. Mae'n ymddangos fod patrymau tebyg o newid yn y boblogaeth wedi digwydd drwy lawer o Ewrop ac mae'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â newidiadau mewn arferion amaethyddol.

Mae'r ysgyfarnog yn bresennol ym mron iawn pob sir yng Nghymru, ond mae'n ymddangos fod ei boblogaeth wedi gostwng yn sylweddol ers 1960. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai maint y boblogaeth yw tua 58,000. Ers 1996, mae'r cofnodion ysgyfarnogod ar gyfer Gogledd Cymru wedi eu cydgasglu gan Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru, ac mae'r data yn awgrymu dosbarthiad eang ond mewn dwysedd eithaf isel. Mae ysgyfarnogod yn llai cyffredin mewn ardaloedd mwy mynyddig.



### 1.3 Statws yng Ngwynedd[d]

Ni wyddir yn iawn beth yw dosbarthiad yr ysgyfarnog yng Ngwynedd, serch hynny, mae arolwg 1997/1998 o Ogledd Cymru gan Cymdeithas Byd Natu Gogledd Cymru yn awgrymu bod yr ysgyfarnog yn eang o ran ei ddosbarthiad ond nid yn gyffredin. Mae'r cofnodion yn bennaf seiliedig ar dir amaeth lle nad oes cymaint o bori yn digwydd.

---

[a] Mae Deddf Diogelu Ysgyfarnogod (1892) yn gwahardd gwerthu ysgyfarnogod yn ystod eu tymor bridio arferol, mis Mawrth i fis Gorffennaf yn gynwysedig.

[b] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru – Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf i Amcanion Diogelu Amrywiaeth Biolegol. Hawlfraint y Goron 2003.

[c] Lepus europaeus

[d] Yn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at yr ardaloedd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir fel arall.

## 2. FFACTORAU SYN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH HON YNG NGWYNEDD[e]

- Newidiadau mewn arferion ffermio – Newid o rawn a blannir yn y gwanwyn i rawn a blannir yn yr hydref, ac yn enwedig y defnydd o silwair yn hytrach na gwellt.
- Dwysáu torri a chynaeafu a'r defnydd o chwynladdwyr sy'n golygu llai o fwyd a chynefinoedd
- Cynnydd posibl yn nifer llwynogod, prif reibiwr ysgyfarnogod ifanc
- Hela ysgyfarnogod (ffactor posibl yn lleol)
- Newid mewn hinsawdd. Gall y tueddiad tymor hir o gael tywydd gwlypach yn y gwanwyn a'r haf fod â goblygiadau tymor hir ar gyfer poblogaethau o ysgyfarnogod, gan y gall tywydd gwlyb ostwng cyfraddau goroesiad ysgyfarnogod ifanc.

## 3. CGR / CGC CYSYLLTIEDIG GWYNEDD

Ymylon caeau âr, Rhostir tir uchel, Morfa pori arfordirol a gorlifdir, Dolydd gwair a thir pori yr iseldir, tiroedd gwlyb

Cornchwiglen Adar tir amaeth,

## 4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YN NGWYNEDD

### 4.1. Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall ysgyfarnogod fod yn bresennol mewn ardaloedd daearol neu arfordirol yng Ngwynedd a ddynodir fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, neu GNL, SoDdGA, GNG, Ymgeisydd ACA neu AGA, serch hynny, nid oes manylion ar gael.

### 4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Gall Cynlluniau Grantiau ar gyfer rheolaeth amaeth-amgylcheddol (ee Tir Gofal) gyfrannu tuag at gynnal a gwella cynefin sy'n addas ar gyfer yr ysgyfarnog .
- Mae'r ysgyfarnog yn un o'r rhywogaethau sy'n gymwys i gael arian o Gronfa Sialens Rhywogaethau CCW.

### 4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Mae'r Gymdeithas Byd Natur Genedlaethol wedi bod yn cydgasglu cofnodion am yr ysgyfarnog oddi wrth aelodau'r cyhoedd ers 1996.

## 5. AMCANION A THARGEDAU'R CYNLLUN GWEITHREDU

1. Sefydlu statws presennol a dosbarthiad yr ysgyfarnog yng Ngwynedd.
2. Cynnal ac ehangu poblogaethau presennol yr ysgyfarnog yng Ngwynedd.
3. Defnyddio'r ysgyfarnog fel rhywogaeth bwysig i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith newidiadau mewn arferion ffermio ar fioamrywiaeth.

## 6. CAMAU GWEITHREDU BWRIEDIG

| Cod | Cam gweithredu | Partner(iaid)[f] |
|---|---|---|
| **Polisi a deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau yn cyd-fynd a chadwraeth yr Ysgyfarnnog<br>TARGED/AMSERLEN: Cynnwys polisïau addas yn y Cynllun Datblygu Unedol | CG, Partneriaid perthnasol |
| **Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd** | | |
| 2 | Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant neu gytundebau rheolaeth sydd yn addas ar gyfer sicrhau nawdd i reoli cynefin ysgyfarfno, gan gymeryd anghenion trhywogaethau CGB i ystyriaeth<br>TARGED/AMSERLEN: i'w osod, cyfredol | **CCGC,** CyT, UFA UAC, GCFBG, CG |
| 3 | Cesio am nawdd I reoli tir drwy ddatblygu cynllun grant bioamtrywiaeth a fyddai yn cynnnwys grantiaua gyfer rheoli cynefin yr ysgyfarnog<br>TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005 | **CG,** Partneriaid perthnasol |
| **Cyngor** | | |
| 4 | Cyfieithu a dosbarthu'r daflen wybodaeth *Conserving the hare* sydd wedi ei chynhyrchu gan y Game Conservancy Trust, ymysg aelodau Undebau Amaeth, clybiau Saethu, CSAB, GCT a pherchenogion a rheolwyr tir eraill fel sy'n briodol<br>TARGED/AMSERLEN: I'w bennu | YCAH, CG |
| **Arolygon, ymchwil a monitor** | | |
| 5 | Cydgasglu'r holl gofnodion presennol am yr ysgyfarnog yng Ngwynedd (gan gynnwys data CBNGC), er mwyn sefydlu statws lleol y rhywogaeth. Ystyried adolygu'r CGR hwn yng nghyd-destun yr wybodaeth hon.<br>TARGED/AMSERLEN: Cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd 2005 | **CBNGG**, CCGC, CG |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 6 | Annog perchenogion a rheolwyr tir i gofnodi unrhyw achosion o weld yr ysgyfarnog a phasio'r wybodaeth hon ar gyfer ei chydgasglu gan NWWT, a'i hintegreiddio mewn Arolygon Ysgyfarnogod Cenedlaethol yn y dyfodol, drwy gyhoeddi erthyglau rheolaidd mewn cyhoeddiadau perthnasol (e.e. ye undevbau amaethyddol, CyT, CSAB,YCAH, CBNGG)<br>TARGED/AMSERLEN: Bob dwy flynedd, yn dechrau Gwanwyn 2004 | NWWT, **CG,** CSCB, YCAH, GCFfBG |
| 7 | Annog y cyhoedd i gofnodi unrhyw achosion o weld yr ysgyfarnog a phasio'r wybodaeth hon ar gyfer ei chydgasglu gan CBNGC, a'i hintegreiddio mewn Arolygon Ysgyfarnogod Cenedlaethol yn y dyfodol, drwy gyflwyno datganiadau i'r wasg leol o bryd i'w gilydd.<br>TARGED/AMSERLEN: cyfredol | **CG,** CBNGG, |

[f] Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

# 7. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

## 7.1 Partner arweiniol cyffredinol ar gyfer SAP

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

## 7.2 Partneriaid allweddol

Cymdeithas Saethu a Cadwraeth Brydeinig (CSCB)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliad Hela (YCAH)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFfBG)

Cyngor Gwynedd (CG)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Undeb Amaethwyr Cymru(UAC)

Undeb Cenedlaethol y Ffernwyr (UCF)

## 7.3 Cyfleoedd

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr, undebau amaeth, perchenogion a rheolwyr tir

# 8. DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Andrew Simpkin
Ymgynghori: Chris Wynne (Cymdeithas byd Natru Gogledd Cymru), Pat Thompson, Stephen Tapper (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliad Hela), Jill Jackson (CG), Robert Greig (prosiect Dyfrgwn Môn)
Ffotograff: Darin Smith

# 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, CGR Cynllun Gweithredu Rhywaogaeth ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, SDodGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, GNG: Gwarchodfa Natur Genedlaethol.

Fersiwn 1, 2004

[1] Hutchings, MRW and Harris, S. 1996. Current status of the hare in Britatin. Report of the Joint Nature Conservation Committee, Peterborough,